



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Cylchlythyr i diwtoriaid – Gorffennaf 2020



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn

Gair gan Efa Gruffudd Jones,
Prif Weithredwr y Ganolfan
Dysgu Cymraeg Genedlaethol



Diolch

Diolch yn fawr i bawb ymunodd yn
y gynhadledd dros Zoom. Roedd yn
hyfryd gweld cymaint ohonoch chi!

Diolch i chi am eich cyfraniad – mae modd gwyllo'r cyflwyniadau
a darllen nodiadau sesiwn Sglein **yma**. Byddwn yn cyflwyno mwy
o sesiynau hyfforddiant ar-lein dros y misoedd nesaf, gan gynnwys
webinarau a gweithdai.

Diolch i chi eto am eich brwdfrydedd a'ch ymrwymiad dros y
misoedd diwethaf. Pob dymuniad da i chi gyd dros yr haf.

Hyfforddiant

Byddwn yn cynnal hyfforddiant ar adnoddau Canolradd ac Uwch
3 – wele'r manylion isod. Llenwch y **ffurflen yma** i ymrestru.

Canolradd Dydd Gwener, 3 Gorffennaf am 10am
Dydd Iau, 3 Medi am 7pm
Dydd Gwener, 4 Medi am 10am

Uwch Dydd Iau, 9 Gorffennaf am 7pm
Dydd Gwener, 4 Medi am 2pm

Gwerthuso'r Cyrsiau Cyfunol

Diolch i'r wyth deg a mwy o diwtoriaid sy wedi bod yn dysgu'r cyrsiau cyfunol newydd dros yr wythnosau diwethaf. Er mwyn cael eich adborth, cynhelir dwy sesiwn: i) Bore Mawrth, 21 Gorffennaf am 10am; ii) Nos Fercher, 22 Gorffennaf am 7pm

Cysylltwch â Mair Lenny Turner (mair.lenny.turner@dysgucymraeg.cymru) am fanylion ymuno â'r cyfarfodydd hyn.



£45

Cyw Cynnar

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n annog eich dysgwyr i fanteisio ar y cynnig Cyw Cynnar arbennig ar gyfer cyrsiau mis Medi. Mae'r gostyngiad 50% ar gael hyd at ddiwedd Gorffennaf. Mae modd dod o hyd i gwrs ar y wefan: dysgucymraeg.cymru

gwyl AmGen

A graphic featuring a large, stylized pink megaphone pointing to the right, surrounded by scattered pink rectangular confetti pieces. The background is white with a purple geometric pattern on the right side.

Dysgwr yr Ŵyl AmGen

6 Gorffennaf yw dyddiad cau cystadleuaeth Dysgwr yr Ŵyl AmGen, sy'n rhan o'r Eisteddfod AmGen. Mae modd enwebu dysgwr trwy gwblhau'r **ffurflen yma**. Dyma gyfle gwyh i gydnabod llwyddiannau dysgwyr ym mhob rhan o'r wlad, felly plis ewch ati i enwebu eich dysgwyr!

Bydd yr **Eisteddfod AmGen** yn digwydd ar-lein rhwng 1-8 Awst. Bydd rhaglenni ar Radio Cymru yn ystod 30 Gorffennaf - 2 Awst ac ar S4C hefyd.

Bydd gweithgareddau ar-lein hwyliog i ddysgwyr yn y Pentref Dysgu Cymraeg rhithiol, gan gynnwys gwersi blasu, boreau coffi, gigs, gweithdai coginio a straeon newydd gan awduron poblogaidd. Bydd y straeon hyn yn cael eu cyhoeddi mewn llyfr newydd yn y gyfres boblogaidd 'Amdani'.




Clwb Cwtsh

Gan ddechrau ar 6 Gorffennaf, bydd Lowri Delve (cyn gyflwynydd rhaglenni 'Cyw') yn cynnal sesiynau Clwb Cwtsh dyddiol ar dudalen **Facebook** y Ganolfan, ar gyfer rhieni a gofalwyr plant ifanc. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cefnogi gan Gymraeg i Blant a fydd yn cynnal sesiynau ymarfer. Ceir y manylion ar **Facebook Cymraeg i Blant**.

Dathlu dysgwyr ar Radio Cymru

Bydd BBC Radio Cymru yn cynnal 'Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg' rhwng 12-16 Hydref. Fel rhan o'r dathliadau, byddwn yn cynnal pŵl piniwn 'Hoff Ganeuon Dysgwyr Cymraeg'. A fyddech chi'n gallu helpu ni i greu rhestr hir i'r dysgwyr ddewis ohoni, trwy e-bostio **swyddfa@dysgucymraeg.cymru** gyda'ch hoff draciau Cymraeg. Byddai'n dda tasech chi'n gallu creu eich 'Siart 10 Uchaf'.





Hwyl yr Haf a Siarad

Byddwn yn cyhoeddi cylchgrawn digidol i ddysgwyr o fewn yr wythnosau nesaf – byddwn yn rhannu'r cylchgrawn ar y cyfryngau cymdeithasol a gyda'r

swyddogion marchnata. Bydd y cynllun Siarad, sy'n paru dysgwyr Canolradd+ gyda siaradwyr Cymraeg, hefyd yn cael ei ail-lansio.

Her yr Haf

Ewch ati i annog eich dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg i gymryd rhan yn **Her yr Haf** eleni. Bydd un enillydd ym mhob sir yng Nghymru a'r wobwr fydd cwrs am ddim ym mis Medi. (Gellir ad-dalu dysgwyr sy eisoes wedi ymrestru.)



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAG

Dysgu
Learn